



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Actau 1: 1-26



- 1 Ar ôl i Iesu atgyfodi, fe dreuliodd amser gyda'i ddisgyblion a'i ddilynwyr. Roedden nhw wedyn yn gallu tystiolaethu ei fod yn fyw. Roedd yn siarad â nhw am beth mae teyrnasiad Duw yn ei olygu.



- 2 Un o'r troeon hynny pan oedd yn cael pryd o fwyd gyda nhw, dwedodd fel hyn: "Peidiwch gadael Jerwsalem nes byddwch wedi derbyn y rhodd mae fy Nhad wedi ei addo. Dych chi'n cofio fy mod wedi siarad am hyn o'r blaen. Roedd loan yn bedyddio gyda dŵr, ond mewn ychydig ddyddiau cewch chi'ch bedyddio gyda'r Ysbryd Glân."




-
- 3 Un diwrnod roedden nhw gyda'i gilydd ar Fynydd yr Olewydd, a dyma Iesu'n dweud wrthyn nhw, "Bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb — yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria, a drwy'r byd i gyd."



-
- 4 Yna ar ôl iddo ddweud hynny cafodd ei godi i fyny i'r awyr o flaen eu llygaid. Dyma gwmwl yn dod o'i gwmpas a diflannodd o'u golwg.



-
- 5 Tra roedden nhw'n syllu i'r awyr yn edrych arno'n mynd, yn sydyn dyma ddau ddyn mewn dillad gwyn yn ymddangos wrth eu hymyl nhw, a dweud, "Chi Galileaid, beth dych chi'n ei wneud yma yn syllu i'r awyr? Mae Iesu wedi cael ei gymryd i'r nefoedd oddi wrthoch chi. Ond yn union yr un fath ag y gweloch e'n mynd bydd yn dod yn ôl eto."



-
- 6 Dyma'r disgyblion yn cerdded yn ôl i Jerwsalem a mynd yn syth i'r ystafell honno i fyny'r grisiau yn y tŷ lle roedden nhw'n aros. Roedden nhw'n cyfarfod yno'n gyson i weddio gyda'i gilydd.



-
- 7 Un tro roedd tua 120 yno yn y cyfarfod, a safodd Pedr yn y canol a dweud bod rhaid dewis rhywun i gymryd lle Jwdas (yr un oedd wedi bradychu Iesu). Roedd Salm 109: 8 yn dweud, 'Gad i rywun arall gymryd ei waith.'



-
- 8 Derbyniodd Jwdas 30 darn arian am fradychu Iesu. Ond, pan sylweddolodd Jwdas fod Iesu'n mynd i gael ei ladd, roedd yn edifar am beth wnaeth e'. Aeth â'r tri deg darn arian yn ôl i'r prif offeiriaid a'r arweinwyr. Taflodd yr arian ar lawr y deml a mynd allan a chrogi ei hun. Syrthiodd i'w farwolaeth, a byrstiodd ei gorff yn agored nes bod ei berfedd yn y golwg. Daeth pawb yn Jerwsalem i wybod am beth ddigwyddodd. Defnyddiodd y prif offeiriaid yr arian i brynu 'Maes y Crochenydd' fel mynwent i gladdu pobl oedd ddim yn Iddewon. A dyna pam mai 'Maes y Gwaed' ydy'r enw arno hyd heddiw.



-
- 9 Dwedodd Pedr, "Mae'n rhaid i ni ddewis rhywun i gymryd lle Jwdas — un ohonoch chi oedd gyda ni pan oedd yr Arglwydd Iesu yma. Rhywun fuodd yno drwy'r adeg, o'r dechrau cyntaf pan gafodd ei fedyddio gan Iwan i'r diwedd pan gafodd Iesu ei gymryd i fyny i'r nefoedd. Rhaid i'r person, fel ni, fod yn dyst i'r ffaith fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw." Dyma ddau enw yn cael eu cynnig: Joseff oedd un, sef Barsabas (sy'n cael ei alw'n Iwstus weithiau hefyd), a Mathias oedd y llall.



-
- 10 Yna, dyma nhw'n gweddïo, "Arglwydd, rwy't ti'n nabod calon pawb. Dangos i ni pa un o'r ddau yma rwy't ti wedi ei ddewis yn lle Jwdas." Yna dyma nhw'n taflu coelbren.



-
- 11 Syrthiodd o blaid Mathias; felly cafodd e' ei ddewis i fod yn gynrychiolydd personol i Iesu gyda'r unarddeg.



-
- 12 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
